Cyngor cyd-Undebol ar gyfer ysgolion

Cyngor cyd-undebol ar grwpiau meddygol agored i niwed a risg uwch

Argyfwng Coronafeirws
Cyngor Gweithle

undeb addysg cenedlaethol cymru

GMB UNION

UNISON the public service union

unite the UNION

Mae'r cyngor hwn gan undebau ar y cyd ar gyfer staff mewn ysgolion sy'n agored i niwed yn feddygol neu fel arall mewn mwy o berygl o Covid-19, neu sy'n byw gyda phobl o'r fath neu'n gofalu amdanynt.

Amddiffyn staff sydd â risg uwch - Mawrth 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn disgwyl i bob ysgol a choleg agor yn ehangach i fyfyrwyr o 15 Mawrth. Mae lefelau haint yn y gymuned yn parhau i fod yn uchel mewn rhai ardaloedd, ac mae'r firws yn parhau i beri risg uchel i bobl ar draws y wlad, yn enwedig y rhai sydd â risg uwch o gael canlyniadau gwael.

Bydd cyngor gwarchod Llywodraeth Cymru i'r grŵp eithriadol o agored i niwed yn glinigol (CEV) yn parhau tan 31 Mawrth ar y cynharaf. Cred yr undebau ar y cyd y dylai hwn hefyd fod yn fesur diogelwch priodol ar gyfer staff eraill y tu hwnt i'r grŵp hwn. Bwriad y cyngor hwn yw cynorthwyo i sicrhau diogelwch i'r gweithwyr hynny ac eraill.

Rhwymedigaethau cyfreithiol ar asesu risg i unigolion

Rhaid i gyflogwyr gydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rheoli cymesur ar waith a'u cadw dan adolygiad. Mae hyn yn cynnwys asesu'r amgylchiadau unigol ar gyfer pob cyflogai cyn gofyn iddynt fynychu'r gweithle. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys cyflyrau iechyd yr unigolyn ei hun, ochr yn ochr ag unrhyw amgylchiadau eraill sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl am resymau eraill.Mae'r graddau y mae unigolion mewn perygl yn cael eu heffeithio gan eu hiechyd sylfaenol a hefyd yn sylweddol iawn yn ôl oedran, ethnigrwydd, rhyw, a beichiogrwydd.

Cyngor Llywodraeth Cymru ar grwpiau meddygol agored i niwed a risg uwch

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau bod ysgolion a cholegau yn weithleoedd diogel ar ôl i fesurau amddiffyn lliniarol gael eu gosod, a dyna'r angen am gau'n rhannol rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth 2021. Mae'r cyd-undebau yn parhau i gymryd y farn nad yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a cholegau yn cynnig mesurau diogelwch digonol i weithwyr. Rydym felly'n cynghori pob cyflogwr, er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'u rhwymedigaethau cyfreithiol o ran diogelwch staff, y dylid dilyn cyngor y cyd-undebau a nodir yn y ddogfen hon.

Cyngor y cyd-undebau

Disgwyliadau'r cyd-undebau o ran asesiadau risg unigol

Mae'r undebau ar y cyd yn disgwyl i bob cyflogwr fod wedi cynnal asesiadau risg unigol cyn cyfarwyddo gweithwyr mewn grwpiau agored i niwed a risg uwch i fynychu'r gweithle, ac i gael eu hadolygu ymhellach yn rheolaidd.

Rhaid i asesiadau risg ystyried eu hamgylchiadau personol a'u hamgylchiadau cartref, nifer yr achosion lleol o Covid-19 a, lle bo angen, cyngor meddygol. Dylai cyflogwyr geisio gwybodaeth yn rhagweithiol gan bob cyflogai. Os oes gennych bryderon nad yw asesiad risg yn adlewyrchu'ch ffactorau risg yn ddigonol, siaradwch â'ch cyflogwr ac, os oes angen, gofynnwch am gyngor gan eich meddyg teulu, yn enwedig os ydych chi'n poeni nad ydych wedi derbyn llythyr gwarchod ac yn meddwl y dylech fod wedi gwneud. (gweler isod).

Dylai asesiadau ystyried pa fesurau amddiffynnol sydd eu hangen ar gyfer cyflogeion sy'n mynychu'r gweithle. Gall hyn gynnwys mesurau sy'n benodol i'r unigolyn, yn ogystal â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer cyflogeion a myfyrwyr yn gyffredinol. Gallai mesurau priodol gynnwys caniatáu i'r cyflogai weithio mewn rolau lle mae'n bosibl cadw pellter cymdeithasol llym, mewn lleoliad lle mae'r risg yn is, neu lle bo angen, darparu offer amddiffynnol personol (OAP). Dylai asesiadau risg gael cefnogaeth y cyflogai dan sylw. Dylid adolygu'r mesurau a weithredir yn gyson.

Ar y cyflogwr mae'r cyfrifoldeb i ddangos bod amgylchedd gwaith diogel ar waith ar gyfer pob gweithiwr.

Staff yn y grŵp sy'n agored iawn i niwed yn glinigol a grŵp gwarchod ehangach

Unigolion sy'n agored iawn i niwed yn glinigol (CEV) sy'n parhau i fod y mwyaf mewn perygl os ydynt yn contractio Covid-19. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn **Adnodd Asesu Risg Covid-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu**.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw ei chyngor gwarchod i bawb a ddiffinnir fel CEV tan o leiaf 31 Mawrth 2021. Felly rhaid i staff CEV beidio â mynychu'r gwaith, ac yn lle hynny dylent weithio gartref, tan 31 Mawrth 2021, hyd yn oed ar ôl brechu. Rhaid i gyflogwyr gydymffurfio â hyn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a cholegau yn nodi y dylid talu staff CEV ar eu telerau arferol. Bydd cyngor gwarchod cyfredol Llywodraeth Cymru yn cael ei adolygu ar 31 Mawrth 2021.

Os ydych chi yn y categori hwn ac yn poeni am unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddyd posibl i fynychu'r gweithle, cysylltwch â'ch cynrychiolydd undeb neu gangen leol i gael cyngor a chymorth.

Staff yn y grŵp sy'n agored i niwed yn glinigol gan gynnwys menywod beichiog

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod grŵp ehangach o bobl, gan gynnwys menywod beichiog, yn fwy **agored i niwed yn glinigol** (CV) i Covid-19 na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae eraill hefyd mewn mwy o berygl am resymau eraill, gydag oedran, rhyw, ethnigrwydd, a ffactorau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd yn arwyddocaol iawn.

Mae'r undebau ar y cyd yn parhau i gredu bod gweithio gartref yn fesur diogelwch priodol i staff yn y grŵp hwn i'w hamddiffyn rhag risg Covid-19 os na all mesurau eraill ddiogelu eu hiechyd yn ddigonol a nes bod brechu wedi cael ei effaith. Yn unol â'n cyngor blaenorol, dylai staff sy'n agored i niwed yn glinigol (CV) a staff dros 60 oed allu gweithio gartref nes eu bod yn cael eu cynghori gan eu meddyg teulu y dylai eu brechiad cychwynnol fod wedi cael ei effaith, fel

y dylai menywod beichiog yn eu trydydd tymor sydd, gydag eithriadau cyfyngedig, yn cael eu cynghori yn erbyn brechu ar hyn o bryd. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu bod rhai staff yn ymgymryd â dyletswyddau amgen y gellir eu gwneud gartref, neu mewn nifer fach o achosion, fod gartref ar gyflog llawn heb ddyletswyddau i'w cyflawni. Yn dilyn brechu, dylid cynnal asesiadau unigol cyn dychwelyd i'r Gwaith.

Pan fydd cyflogwr yn mynnu y dylai gweithiwr CV fynychu'r gweithle, cyn i'r meddyg teulu gynghori y dylai'r brechiad cychwynnol fod wedi cael ei effaith, ac nad yw'r gweithiwr yn credu bod y mesurau a nodwyd gan y cyflogwr yn ddigon i'w cadw'n ddiogel, dylent hysbysu eu cynrychiolydd undeb lleol a cheisio tystiolaeth gefnogol ar unwaith gan eu meddyg ac / neu atgyfeiriad at iechyd galwedigaethol. Gallai cyfeirio at yr **Adnodd Asesu Risg Covid-19** fod yn ddefnyddiol.

Tra bo'r broses hon rhagddi, byddem yn cefnogi pob gweithiwr CV i gael caniatâd i weithio gartref hyd nes y gellir gwneud penderfyniad yn seiliedig ar yr holl wybodaeth feddygol berthnasol.

Unwaith eto, os ydych chi yn y categori hwn ac yn poeni am unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddyd posibl i fynychu'r gweithle, cysylltwch â'ch cynrychiolydd undeb neu gangen leol i gael cyngor a chymorth.

Menywod beichiog a mamau Newydd

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ystyried, wrth gynnal asesiadau risg, y risgiau i weithwyr sy'n feichiog neu famau newydd (y rhai sydd wedi rhoi genedigaeth yn ystod y chwe mis blaenorol) a'u hatal ar gyflog llawn os yw'n amhosibl osgoi risgiau i'w iechyd a diogelwch. Mae menywod beichiog yn parhau i gael eu cynnwys ar restr Llywodraeth Cymru o'r rhai sy'n agored i niwed yn glinigol ac **nad ydynt yn rhan o'r rhaglen frechu ar hyn o bryd**, er y cydnabyddir y dylid brechu rhai menywod beichiog sydd â risg eu gadael yn ddiamddiffyn uchel neu sydd â chyflyrau meddygol sylfaenol ar ôl pwyso a mesur y risgiau ac ar ôl ymgynghori â'u meddyg teulu.

Mae cyngor ar y cyd gan y Llywodraeth, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion & Gynaecolegwyr (RCOG) a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch: **Coronafirws (Covid-19): cyngor i weithwyr beichiog** yn cynghori bod yn rhaid i gyflogwyr gynnal asesiad risg ar gyfer gweithwyr beichiog, a ddylai barhau i weithio yn y gweithle dim ond os yw'r asesiad risg yn cynghori ei bod yn ddiogel gwneud hynny. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyflogwyr ystyried a allai addasu dyletswyddau a / neu hwyluso gweithio gartref fod yn briodol i liniaru risgiau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio ysgolion at gyngor ac arweiniad gan Goleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr sy'n nodi, er na fydd menywod beichiog yn fwy tebygol o gael eu heintio gan Covid-19, gall y rhai sy'n dal unrhyw afiechydon anadlol yn nhrydydd tymor y beichiogrwydd. (h.y. yr 28ain wythnos a thu hwnt) fynd yn ddifrifol wael ac mewn mwy o berygl o enedigaeth gynamserol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol y gallai menywod beichiog gyda beichiogiad o 28 wythnos, neu â chyflyrau iechyd sylfaenol ar unrhyw feichiogiad, fod mewn mwy o berygl o salwch difrifol o Covid-19. Er nad yw menywod beichiog o unrhyw feichiogiad mewn mwy o berygl o ddal y firws nag unrhyw berson arall nad yw'n feichiog ac sydd mewn iechyd tebyg, ar gyfer y menywod hynny sy'n 28 wythnos yn feichiog a thu hwnt, mae risg uwch o ddod yn ddifrifol wael, ac o enedigaeth gynamserol, pe baent yn dal Covid-19. Mae'r undebau ar y cyd yn parhau i gredu bod gweithio gartref yn fesur diogelwch priodol i staff yn y grŵp hwn i'w hamddiffyn rhag risg Covid-19 os na all mesurau eraill ddiogelu eu hiechyd yn ddigonol a nes bod brechu wedi cael ei effaith.

Mae'r RCOG wedi argymell o'r blaen, mewn perthynas â gweithwyr gofal iechyd, y dylid caniatáu i fenywod yn y trydydd tymor weithio gartref. Mae'r undebau ar y cyd yn credu y dylai cyflogwyr addysg ystyried hyn yn eu hasesiadau

risg unigol ar gyfer menywod beichiog a mamau newydd. Dylid caniatáu i bob menyw yn nhrydydd tymor eu beichiogrwydd weithio gartref, hyd yn oed y rhai a allai fod wedi cael cynnig brechu oherwydd cyflyrau meddygol sylfaenol neu risg amlygiad uchel. Rydym yn galw ar gyflogwyr i ddylunio rotas gyda'r bwriad o sicrhau bod menywod beichiog sy'n gynharach yn eu beichiogrwydd hefyd yn cael eu cefnogi i weithio gartref. Ni ddylai unrhyw fenyw feichiog fod yn y gweithle oni bai bod asesiad risg y cytunwyd arno yn cynghori ei fod yn ddiogel.

Rydym yn cynghori menywod beichiog sy'n ceisio gweithio gartref neu sydd wedi'u hatal dros dro ar sail mamolaeth i ysgrifennu at y cyflogwr i gadarnhau eu bod yn bwriadu i'w habsenoldeb mamolaeth ddechrau yn yr Wythnos Genedigaeth Ddisgwyliedig (*Expected Week of Childbirth*).

Staff mewn categorïau risg uchel eraill - oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd

Mae'r undebau ar y cyd yn disgwyl i gyflogwyr gynnal asesiadau risg unigol ar gyfer gweithwyr sydd mewn grwpiau risg uwch hysbys. Mewn rhai amgylchiadau, bydd gweithio gartref unwaith eto yn fesur amddiffynnol priodol.

Dylai oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd nid yn unig fod yn rhan o asesiad risg pob cyflogwr ar gyfer pob aelod staff unigol ond y dylai'r broses gydnabod y pryder y gallai staff penodol ei deimlo am eu hamgylchiadau

Rhaid i gyflogwyr gymryd camau rhagweithiol, sensitif a chefnogol i adeiladu darlun llawn o ethnigrwydd a statws iechyd eu gweithlu fel rhan o'r cynllunio i wneud gwaith yn ddiogel.

Heblaw am gyflyrau iechyd penodol, oedran yw'r ffactor unigol mwyaf wrth gynyddu'r risg i unigolion. Mae dynion mewn mwy o berygl o gael canlyniadau niweidiol pe baent yn dal y firws na menywod. Dylid ystyried y ddwy nodwedd hyn mewn asesiadau risg. Dylid caniatáu i staff 60 oed neu'n hŷn yn benodol i weithio gartref nes eu bod yn cael eu cynghori gan eu meddyg teulu y dylai eu brechiad cychwynnol fod wedi cael ei effaith. Lle bo modd, dylid cymryd mesurau i amddiffyn eraill yng ngham 1 y rhaglen frechu, sy'n 50 oed neu'n hŷn, a allai fod yn aros am eu brechiad cyntaf. Yn dilyn brechu dylid cynnal asesiadau unigol cyn dychwelyd.

Gwyddys bod pobl Ddu * wedi dioddef effaith anghymesur yn ystod y pandemig. Mae'r mater hwn yn parhau i fod yn achos pryder sylweddol i weithwyr Du a allai deimlo'n llai abl i godi eu pryderon mewn gweithleoedd oherwydd ystrydebau a rhagfarn.

Mae angen ystyried risg i weithwyr anabl yn ofalus, hyd yn oed os nad yw eu cyflwr iechyd penodol eu hunain yn eu rhoi yn y categori bregus yn feddygol. Mae ystadegau'r ONS yn dangos bod 60 y cant o holl farwolaethau Covid y DU wedi bod yn bobl anabl. Mae staff anabl yn aml yn profi ystrydebau yn y gwaith a gallant fod yn poeni am effaith yr argyfwng presennol ar eu hiechyd, a diogelwch eu swyddi. Mae'n bwysig cofio bod cyflogwyr o dan rwymedigaeth gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer staff anabl, a fydd mewn rhai achosion, yn cynnwys gweithio gartref i sicrhau y gallant barhau i weithio'n ddiogel.

Staff ag aelodau o'r teulu sy'n agored i niwed yn feddygol neu sydd â risg uwch

Dylai asesiadau risg Covid-19 unigol hefyd ystyried amgylchiadau domestig gweithiwr. Mae'r undebau ar y cyd yn gofyn i gyflogwyr fabwysiadu trefniadau gyda'r bwriad o sicrhau y gellir cefnogi staff y mae aelodau eu cartref yn agored i niwed i weithio gartref nes bod y risg o heintiad yn cael ei leihau'n sylweddol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y gall staff sy'n byw gydag aelodau teulu CEV fynychu'r gweithle "lle nad yw'n bosibl gweithio gartref". Mae'r undebau ar y cyd yn cynghori mai'r cyfrifoldeb ar y cyflogwr felly yw ystyried trefniadau sy'n ei gwneud hi'n bosibl i'r staff yma gael eu cefnogi i weithio gartref.

* 'Defnyddir 'Du' mewn cyd-destun gwleidyddol i gwmpasu pob aelod sy'n hunan-adnabod fel pobl Ddu, Asiaidd ac unrhyw grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill nad ydynt yn nodi eu hunain yn wyn.

Effaith y rhaglen frechu

Mae **cyngor gwarchod** Llywodraeth Cymru yn nodi bod effaith brechu yn parhau i gael ei hasesu ar draws pob grŵp ac y dylai'r gwarchod barhau, p'un a yw unigolyn wedi cael un dos neu'r ddau o'r brechlyn. Er y gallai'r sefyllfa hon newid yn y dyfodol, oni bai / hyd nes y bydd hyn yn digwydd, byddai felly'n gwbl amhriodol i unrhyw gyflogwr geisio defnyddio statws brechu fel ffordd o orfodi gweithiwr sy'n agored i niwed i fynychu'r gweithle. Fel y disgrifir uchod, mae'r cyd undebau yn credu y dylid caniatáu i staff 60 oed neu'n hŷn weithio gartref nes eu bod yn cael eu cynghori gan eu meddyg teulu y dylai eu brechiad cychwynnol fod wedi cael ei effaith. Lle bo modd, dylid cymryd mesurau i amddiffyn eraill yng ngham 1 y rhaglen frechu, sy'n 50 oed neu'n hŷn, a allai fod yn aros am eu brechiad cyntaf.

Cyngor i aelodau ar gysylltu â'u cyflogwr

Dylai cyflogwyr eisoes fod wedi cynnal asesiad risg a oedd yn ystyried amgylchiadau personol. Defnyddiwch y llythyr yn ein templed (gweler yr atodiad isod) i ysgrifennu at eich cyflogwr os ydych chi am sicrhau bod y cyflogwr yn ymwybodol o'ch iechyd ac amgylchiadau personol eraill, yn enwedig unrhyw newidiadau diweddar nad yw o bosib yn ymwybodol ohonynt. Gallech hefyd gysylltu â'ch meddyg teulu ymlaen llaw a thrafod ffactorau risg a mesurau amddiffynnol posibl er mwyn eich helpu i egluro materion i'ch cyflogwr. Os ydych chi'n dioddef o straen sy'n effeithio ar eich iechyd meddwl, yna dylid codi hyn hefyd gyda'ch meddyg teulu. Os ydych chi'n anhapus ag ymateb eich cyflogwr, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu i'w drafod a cheisio tystiolaeth bellach i'ch cefnogi chi wrth geisio dod i gytundeb.
Cysylltwch â'ch undeb lleol i gael cyngor pellach am yr hyn sy'n rhesymol i'w ddweud wrth eich cyflogwr, neu os gofynnir i chi weithio yn yr ysgol pan nad ydych chi'n teimlo ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny.

Cysylltu â'ch undeb

Sicrhewch eich bod yn dweud wrth eich undeb lleol os ydych wedi anfon llythyr at y pennaeth - bydd angen y wybodaeth hon arnynt i gael y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa staff sydd angen mesurau amddiffynnol neu sy'n teimlo na allant weithio yn yr ysgol a chynrychioli aelodau. Os nad oes cynrychiolydd yn eich ysgol, gwirfoddolwch.

Gellir dod o hyd i fanylion ar sut i gysylltu â'ch undeb yn lleol **yma** ar gyfer aelodau NEU ac **yma** ar gyfer aelodau UNSAIN. Gellir dod o hyd i ganllaw GMB **yma** ac **yma**. Mae canllaw Unite **yma**.

Gwybodaeth Bellach

Gall aelodau NEU ddarllen y **cyngor hwn** ynglŷn â cheisio am gefnogaeth gydag iechyd meddwl a lles. Gall aelodau UNSAIN ofyn am gyngor a chefnogaeth gyfrinachol gan elusen les UNSAIN, **There for You**. Gellir dod o hyd i ganllaw GMB **yma**.

Risgiau ar gyfer lleiafrifoedd ethnig - Mae'r GMB wedi cyhoeddi dangosydd risg Covid-19 **yma** tra bod dadansoddiad yr NEU ar gael **yma**.

Cyngor gofal plant - Mae cyngor yr NEU mewn perthynas â gofal plant ar gael **yma**. Gellir dod o hyd i gyngor UNSAIN **yma** ar gyfer staff yr ysgol ac **yma** ar gyfer staff coleg. Gellir dod o hyd i ganllaw GMB **yma**.

Mae cyngor penodol a chyflawn yr NEU ar gael ar gyfer **staff cyflenwi** a **staff teithiol**.

Gellir dod o hyd i gyngor UNSAIN **yma** ar gyfer staff yr ysgol ac **yma** ar gyfer staff coleg. Gellir dod o hyd i ganllaw GMB **yma**.

Cyd-Undebau
NEU, UNSAIN, GMB & UNITE

Atodiad

Cysylltu â'ch cyflogwr

Defnyddiwch y llythyr yn ein templed isod i ysgrifennu at eich cyflogwr os oes angen.

Annwyl [rhowch enw]

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â'ch cynllunio ar gyfer lefelau staffio, eich asesiad risg ar gyfer staff, a'm swydd fy hun. Hoffwn dynnu eich sylw at y materion canlynol, yr hoffwn ichi eu hystyried wrth edrych ar argaeledd staff a fy rôl yn yr amgylchiadau presennol:

- mewnosodwch wybodaeth am eich sefyllfa bersonol fel y trafodwyd uchod.

Hoffwn ichi gytuno, o ystyried yr amgylchiadau hyn, y byddaf yn gallu gweithio gartref a chadarnhau imi mai dyna fydd yr achos. Os ydych yn cynnig ei gwneud yn ofynnol imi ddod i'r gweithle, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi gwybod imi'r rhesymau (gan gynnwys copi o'r asesiad risg ac, lle bo hynny'n briodol, yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n ymwneud â'm swydd) dros y cais hwnnw.

Gyda dymuniadau gorau.

[Eich enw]

NEU1987/1220